# Canllaw Rhoi Plant yn Gyntaf



# Beth yw Rhoi Plant yn Gyntaf?

- **Mae dull Rhoi Plant yn Gyntaf yn golygu rhoi plant wrth galon yr hyn a wnawn.** Dylai'r system cyfiawnder ieuenctid drin plant fel plant, gweld y plentyn cyfan, gan gynnwys unrhyw rwystrau strwythurol y maent yn eu hwynebu a chanolbwyntio ar ganlyniadau gwell i blant. Bydd hyn hefyd yn creu cymunedau mwy diogel gyda llai o ddioddefwyr.

- Mae'r system cyfiawnder ieuenctid wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran lleihau nifer y plant sy'n ymuno â'r system a'r plant yn yr ystad ddiogel. Fodd bynnag, **mae'r plant hynny sy'n aros yn y system yn wynebu nifer o heriau cymhleth ac mae angen cymorth arnynt i chwalu rhwystrau a chreu cyfleoedd** iddynt symud ymlaen gyda'u bywydau.

- Mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym fod dull Rhoi Plant yn Gyntaf yn effeithiol o ran mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol y nifer fach o blant yn y system cyfiawnder ieuenctid heddiw, ac wrth atal y plant hynny sy'n fwy tebygol o ymuno â'r system rhag troseddu.

- **Nid yw Rhoi Plant yn Gyntaf yn ddull newydd –** mae'n crynhoi dealltwriaeth gyfoes o'r hyn sy'n gweithio ym maes cyfiawnder ieuenctid, yn seiliedig ar ddegawdau o dystiolaeth.

- **Plant yn Gyntaf yw'r egwyddor arweiniol ar gyfer y sector cyfiawnder ieuenctid,** ac mae'n sail i'r Safonau ar gyfer Plant yn y System Cyfiawnder a'r Canllawiau Rheoli Achosion diwygiedig.

- **Mae dull Rhoi Plant yn Gyntaf yn mynd y tu hwnt i'r system cyfiawnder ieuenctid**. Dylai'r egwyddor arweiniol lywio'r gwaith ymyriad gyda phob plentyn, er mwyn adnabod y potensial sydd gan bob un ohonynt.

- Mae dull Rhoi Plant yn Gyntaf yn bwysicach nag erioed yn yr hinsawdd sydd ohoni. Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at fwy o heriau i blant gan gynnwys iechyd meddwl, newidiadau i addysg a chynnydd mewn niwed a achosir gan gamfanteisio a cham-drin.

# Yr egwyddor arweiniol ar gyfer y system cyfiawnder ieuenctid

Mae Rhoi Plant yn Gyntaf yn golygu bod pob gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid...

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer plant** | Blaenoriaethu buddiannau gorau plant a chydnabod eu hanghenion, eu galluoedd, eu hawliau a'u potensial penodol. Mae'r holl waith yn canolbwyntio ar y plentyn, yn wybodus yn ddatblygiadol, yn cydnabod rhwystrau strwythurol ac yn diwallu cyfrifoldebau tuag at blant. |
| **Meithrin hunaniaeth sy'n rhag-gymdeithasol** | Hyrwyddo cryfderau a galluoedd unigol plant i ddatblygu eu hunaniaeth rhag-gymdeithasol ar gyfer ymataliad cynaliadwy, gan arwain at gymunedau mwy diogel a llai o ddioddefwyr. Mae'r holl waith yn adeiladol ac yn canolbwyntio ar y dyfodol, wedi'i adeiladu ar berthnasoedd cefnogol sy'n grymuso plant i gyflawni eu potensial a gwneud cyfraniadau cadarnhaol i gymdeithas. |
| **Cydweithio â phlant** | Annog cyfranogiad, ymgysylltiad a chynhwysiant cymdeithasol ehangach plant. Mae'r holl waith yn gydweithio ystyrlon gyda phlant a'u gofalwyr. |
| **Dargyfeirio oddi wrth stigma** | Hyrwyddo plentyndod sydd ddim yn dod i gyswllt â'r system gyfiawnder, gan atal yn rhagataliol, dargyfeirio ac ymyrryd cyn lleied â phosibl. Mae'r holl waith yn lleihau'r stigma troseddegol sy'n deillio o gysylltiad â'r system. |

# Ar gyfer plant

Blaenoriaethu buddiannau gorau plant a chydnabod eu hanghenion, eu galluoedd, eu hawliau a'u potensial penodol. Mae'r holl waith yn canolbwyntio ar y plentyn, yn wybodus yn ddatblygiadol, yn cydnabod rhwystrau strwythurol ac yn diwallu cyfrifoldebau oedolion tuag at blant.

- Mae plant yn wahanol i oedolion – mae ganddynt wahanol anghenion ac elfennau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, ni ddylid eu trin yn yr un modd, a chyfrifoldeb oedolion yw hwyluso eu datblygiad cadarnhaol.

- Mae Rhoi Plant yn Gyntaf yn cydnabod plant yn ôl eu hoedran, eu datblygiad a'u gwerth cynhenid a'u potensial. Mae'r system cyfiawnder ieuenctid wedi canolbwyntio o'r blaen ar reoli ymddygiad troseddol plentyn a'r risgiau yr ystyriwyd eu bod yn eu hachosi. Fodd bynnag, mae tystiolaeth nawr yn dweud wrthym, er mwyn atal troseddu, rhaid i ni fynd i'r afael ag anghenion plant sydd heb eu diwallu a nodi eu cryfderau a chreu cyfleoedd i wireddu eu potensial.

# Meithrin hunaniaeth sy’n rhag-gymdeithasol

Hyrwyddo cryfderau a galluoedd unigol plant i ddatblygu eu hunaniaeth rhag-gymdeithasol ar gyfer ymataliad cynaliadwy, gan arwain at gymunedau mwy diogel a llai o ddioddefwyr. Mae’r holl waith yn adeiladol ac yn canolbwyntio ar y dyfodol, wedi’i adeiladu ar berthnasoedd cefnogol sy’n grymuso plant i gyflawni eu potensial a gwneud cyfraniadau cadarnhaol i gymdeithas.

- Mae tystiolaeth yn dweud wrthym mai’r ffordd o atal troseddu a chael cymunedau mwy diogel gyda llai o ddioddefwyr yw drwy hyrwyddo hunaniaeth rhag-gymdeithasol a chanlyniadau cadarnhaol i blant. Yn hytrach na dim ond rheoli ‘risg o droseddu’, sy’n cadw plant wedi’u labelu fel troseddwyr posibl, mae gwaith yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant – fel ar gyfer unrhyw blentyn mewn cymdeithas.
- Mae datblygu hunaniaeth rhag-gymdeithasol yn golygu helpu plant i weld eu hunain mewn ffyrdd sy’n annog ymddygiad cadarnhaol a dyfodol adeiladol. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer bywydau heb drosedd. Dylai gweithgareddau ganolbwyntio ar y dyfodol er mwyn helpu i symud bywydau yn eu blaen yn hytrach na thynnu sylw at hunaniaeth troseddwr.
- Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng plant ac eraill yn hanfodol er mwyn ailddatgan eu cryfderau unigol a’u dysgu eu bod yn perthyn. Mae amrywiaeth yn bwysig i hunaniaeth a’i datblygiad.
- Mae mynd i’r afael â ‘risgiau o niwed’ i’r plentyn neu eraill yn hanfodol er mwyn darparu lle diogel ar gyfer datblygiad plant ac ar gyfer dioddefwyr a dioddefwyr posibl, ond gellir lleihau stigma os yw hyn yn cael ei ddeall mewn termau mwy cadarnhaol, fel cadw pawb yn ddiogel, diogelu, neu iechyd a diogelwch.

# Cydweithio â phlant

Annog cyfranogiad, ymgysylltiad a chynhwysiant cymdeithasol ehangach plant. Mae'r holl waith yn gydweithio ystyrlon gyda phlant a'u gofalwyr.

- Mae ymgysylltu â phlant yn hanfodol. Mae gwahaniaeth rhwng cyfranogiad, lle gallai plant gael gwybodaeth yn unig, ac ymgysylltu, lle mae plant yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses.
- Ni ddylai'r broses cyfiawnder ieuenctid 'ddigwydd' iddynt yn unig – dylent gael llais, teimlo bod ganddynt ddiddordeb ynddi, bod yn rhan o'r ateb a chredu bod cyfiawnder wedi digwydd. Mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym fod plant yn fwy tebygol o aros gyda'r broses os ydynt wir yn rhan ohoni ac yn teimlo eu bod yn rhan ohoni.
- Dylai plant deimlo bod ymgysylltu â'r broses yn berthnasol i'w hanghenion, eu diddordebau a'u dyfodol ac yn dod â budd gwirioneddol iddyn nhw.

# Dargyfeirio oddi wrth stigma

Hyrwyddo plentyndod sydd ddim yn dod i gyswllt â'r system gyfiawnder, gan atal yn rhagataliol, dargyfeirio ac ymyrryd cyn lleied â phosibl. Mae'r holl waith yn lleihau'r stigma troseddegol sy'n deillio o gysylltiad â'r system.

- Mae **atal** yn golygu cefnogi a chymryd camau ymyrryd gyda phlant (a'u rhieni/gofalwyr) a allai arddangos ymddygiad a allai fod yn arwydd o anghenion sylfaenol neu fregusrwydd. Yn ymarferol, mae hyn yn cynnwys dull haenog o atal yn gynnar ac wedi'i dargedu. Mae **dargyfeirio** yn edrych ar blant sydd â throsedd gysylltiedig sy'n cael canlyniad arall nad yw'n arwain at gofnod troseddol ac sy'n osgoi camau pellach i'r system cyfiawnder ieuenctid ffurfiol. Mae diffiniadau llawn ar gyfer y ddau derm ar gael yn yr Hwb Adnoddau Cyfiawnder Ieuenctid.

- Mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym fod llawer o fanteision i ddargyfeirio plant oddi wrth y system cyfiawnder troseddol ffurfiol, gan gynnwys lleihau stigma. Mae dargyfeirio'n cyfrannu at ganlyniadau gwell i blant ac, o ganlyniad, at lai o droseddu a chymunedau mwy diogel.

- Gwyddom y bydd plant yn gwneud camgymeriadau dim ond oherwydd diffyg profiad a gwybodaeth y mae oedolion yn eu cronni, yn ogystal â datblygiad biolegol a gwybyddol. Mae dargyfeirio plant yn cydnabod hyn ac yn dileu'r stigma sy'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder.

- Mae'r dystiolaeth hefyd yn dweud wrthym y gall cyswllt â'r system cyfiawnder ieuenctid gynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn aildroseddu – y system ei hun yn dod yn rhwystr i blant rhag symud ymlaen yn eu bywydau heb droseddu. Mae angen i ni osgoi plant yn datblygu hunaniaeth sy'n cefnogi ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol ac sy'n arwain at ganlyniadau negyddol a chymunedau anniogel.

## Tystiolaeth Allweddol

Mae trosolwg o'r papurau ymchwil dylanwadol a'r datblygiadau polisi sy'n sail i Rhoi Plant yn Gyntaf ar gael yn Child First Justice: The research evidence-base (Case and Browning, 2021)

**Fel Plant:**

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 - Yn nodi y dylai ymatebion cyfiawnder ieuenctid ffurfiol fod yn 'ddewis olaf' (Y Cenhedloedd Unedig 1989: Erthygl 37b)
- Cosbi Anfantais - proffil o blant yn y ddalfa (ymhlith eraill) - Yn dangos bod plant yn gynhenid fwy agored i niwed nag oedolion.
- Aeddfedrwydd, oedolion ifanc a chyfiawnder troseddol: Adolygiad llenyddiaeth - Yn dangos bod plant yn wahanol i oedolion yn ddeallusol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol
- Ieuenctid ar Brawf – Safbwynt Datblygiadol ar Gyfiawnder Ieuenctid – Yn awgrymu bod straen cyfranogiad y GCI yn amharu ar benderfyniadau plant.
- Edinburgh Study of Youth Transitions and Crime - Wedi nodi trwy ymchwil hydredol bod system ffurfiol yn niweidiol, yn stigmateiddio, yn droseddegol ac o bosibl y ffactor risg mwyaf dylanwadol ar gyfer aildroseddu (McAra a McVie, 2005; 2007a,b; 2010; 2012)

**Adeiladu Hunaniaeth Rhag-gymdeithasol:**

- Y tu hwnt i Ieuenctid yn y Ddalfa (BYC) – Mae'n darparu sylfaen dystiolaeth gadarn a model ar gyfer adsefydlu plant sy'n gadael y ddalfa yn effeithiol ar sail pum egwyddor sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n hwyluso ymarfer Rhoi Plant yn Gyntaf: Adeiladol, Cyd-greu, Personol, Cyson, Cydlynus (Hazel et al 2020)

## Tystiolaeth Allweddol

**Cydweithio â phlant:**

- Prosiect Hyrwyddo Cadarnhaol - Mae'n darparu tystiolaeth bod dehongliadau o gyfranogiad yn gwahaniaethu rhwng plant ac oedolion (Charles, 2017) ac yn dangos bod ymyriadau ar sail hawliau'n gwella perthnasoedd plant/oedolion, canlyniadau cadarnhaol, atal canlyniadau negyddol, gwell effeithiolrwydd gwasanaethau (Haines a Case, 2015)
- Cyfiawnder Ieuenctid Cadarnhaol: Plant yn gyntaf, troseddwr yn ail - Yn pwysleisio ymgysylltiad, cyfranogiad a chynhwysiant plant fel egwyddorion ymarfer canolog sy'n galluogi bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ar y sail bod 'plant yn rhan o'r ateb, nid yn rhan o'r broblem' (Haines a Case, 2015: 287)
- Cyfranogiad plant: O docenistiaeth i ddinasyddiaeth – Yn diffinio wyth gradd o gyfranogiad yn seiliedig ar ymchwil UNICEF ac yn eu dangos fel 'Ysgol Cyfranogiad'. Diffinnir 'cyfranogiad llawn' fel rhannu'r broses o wneud penderfyniadau'n deg ag oedolion, ac fel egwyddor sylfaenol wrth wella hawliau plant (Hart, 1992; 2008: 5)
- Ymchwil Gyfranogol: Gweithio gyda grwpiau agored i niwed mewn ymchwil ac ymarfer - Yn darparu model cyfranogol y gall ymchwilwyr ac ymarferwyr ddod o hyd i'w gwaith eu hunain. Yng nghyd-destun cyfiawnder ieuenctid, lle mae egwyddorion Rhoi Plant yn Gyntaf i hyrwyddo cyfranogiad o fewn y maes 'plentyn fel actor', gellir addasu'r model ar gyfer ymarfer defnydd-deb (Aldridge, 2016)
- Ymgysylltu â phobl ifanc fel partneriaid ar gyfer newid: Prosiect cymunedol UR - Yn nodi bod gan blant ddealltwriaeth glir o'u sefyllfa fel 'actorion' yn hytrach nag fel cyfranogwyr goddefol, gan ddangos ymwybyddiaeth o'u hawl i fynegi barn a sicrhau bod y farn honno'n cael ei chlywed ym mhob mater sy'n peri pryder iddynt. (Charles a Haines, 2019)
- Partneriaeth Prifysgol Cyfiawnder Ieuenctid Manceinion Fwyaf – Yn dangos tystiolaeth o ddull cyfranogol sy'n cynnal hawliau plant ac sy'n eu galluogi i gyfranogi'n ystyrlon mewn prosesau gwneud penderfyniadau (Smithson, et al., 2020)
- Clywed lleisiau newydd - Yn dadlau mai 'y berthynas rhwng pobl ifanc ac ymarferwyr yw canolbwynt y ddarpariaeth cyfiawnder ieuenctid' ac yn darparu argymhellion i 'ailfeddwl' am gyfiawnder ieuenctid (Drake et al., 2014: 22)

**Dargyfeirio oddi wrth Stigma:**

- Edinburgh Study of Youth Transitions and Crime – Yn nodi mai cyswllt ffurfiol â'r system yw'r ffactor risg mwyaf dylanwadol ar gyfer aildroseddu, gan gefnogi ymyrraeth fach iawn (McAra a McVie, 2005; 2007a, b; 2010; 2012)